Cyngor Sir y Fflint
Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg
Ebrill 2018- Mawrth 2019

Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau gwahanol neu yn eich iaith eich hun

Tîm Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol
Gwasanaethau Corfforaethol
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NG
Rhif ffôn: ☎ 01352 702131
E-bost: 💻 busnesscorfforaethol@siryfflint.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg

Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg

2018/2019

Adroddiad Monitro 2018 - 2019

Crynodeb Gweithredol

1.	Cyflwyniad	4
2.	Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	5
3.	Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi	6
4.	Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol	6
5.	Hyfforddiant	10
6.	Cwynion	12
7.	Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg	13
8.	Gweithredu yn y Dyfodol	14

Atodiadau

Atodiad 1 Offeryn Hunan Asesu Sgiliau Cymraeg

Crynodeb Gweithredol

Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar 30 Mawrth 2016 ac roedd yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r 146 Safon erbyn y dyddiad hwn. Daeth Safonau pellach i rym yn ddiweddarach gan olygu cyfanswm o 171 i gyd. Mae nifer o'r Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor yn adlewyrchu'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol ac yn adlewyrchu ein harfer presennol a'n hymrwymiad i'r Gymraeg.

Dyma drydydd Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg yn dilyn gweithredu Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg ac mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019. Mae'n dangos camau yr ydym wedi eu cymryd i gydymffurfio â'r Safonau ac mae'n cynnwys data y mae'n ofynnol i ni eu cyhoeddi.
Maes o welliant yw'r nifer gynyddol o weithwyr sydd wedi cwblhau asesiad sgiliau'r Gymraeg. Ymhlith y meysydd nodedig eraill o lwyddiant mae'r ffaith i'r holl ysgolion cyfrwng Cymraeg lwyddo i gael statws Arian y Siarter Iaith a llwyddodd un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i dderbyn statws Aur. Mae'r wobr yn gydnabyddiaeth o'u gwaith i annog y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Mae gwasanaethau hefyd wedi bod yn weithredol yn hyrwyddo'r Gymraeg, yn arbennig Theatr Clwyd. Mae'r theatr wedi bod yn weithredol yn codi proffil y Gymraeg drwy ei holl weithgareddau, gan gynhyrchu a chyd-gynhyrchu sioeau Cymraeg. Am y tro cyntaf yn ei hanes darparodd sioe Nadolig yn y Gymraeg sef "Llew a'r Crydd".

Rydym yn cydnabod ein bod yn gwneud cynnydd, ond mae gwelliannau i'w gwneud o hyd. Byddwn yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng yr iaith Gymraeg a Chynllun y Cyngor i gyfrannu tuag at brif ffrydio'r iaith Gymraeg ar draws swyddogaethau'r Cyngor.

Colin Everett
Y Prif Weithredwr

Y Cynghorydd Billy Mullin
Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018-19

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth ymgymryd â'i fusnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg yn adeiladu ar yr ymrwymiad hwn.

1.2 Nod y Safonau yw i

- wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn y Gymraeg
- cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg.
- ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg.
- sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau.

1.3 Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiadau Cydymffurfio ar y Cyngor yn nodi'r 171 o Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy. Mae Hysbysiadau Cydymffurfio yn unigryw i bob sefydliad ac yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gymuned leol a'r capasiti sefydliadol i ddiwallu'r Safonau. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg y pwerau i ymchwilio ac i gymryd camau yn erbyn y sefydliadau hynny sy'n methu cydymffurfio â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys gosod cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfedd.

1.4 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin fel y nodir yn Safonau 158, 164 a 170. Mae rhestr lawn o'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy ar gael yma.

Caiff yr adroddiad hwn ei dderbyn yn flynyddol hefyd gan Gabinet y Cyngor ar berfformiad mewn perthynas â'r Safonau. Bydd adroddiad canol blwyddyn ar feysydd o welliant hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

1.5 Rydym wedi cyhoeddi rhestr o gamau rydym wedi eu cymryd i gydymffurfio â'r Safonau ar ein gwefan.

1.6 Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.

2. Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

2.1 I sicrhau fod yr holl weithwyr yn ymwybodol o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau rydym wedi bod yn cylchredeg gwybodaeth i reolwyr a gweithwyr yn rheolaidd. Gofynnwyd i reolwyr sicrhau fod eu Gwasanaethau yn cydymffurfio.

2.2 Mae canllawiau penodol wedi eu rhoi i weithwyr ynglŷn â:

- Threfnu cyfarfodydd a digwyddiadau
- Brandio Corfforaethol
- Ymgynghori ac ymchwil
- Delio â galwadau ffôn
- Delio â gohebiaeth
- Cynhyrchu dogfennau, tystysgrifau ar gyfer y cyhoedd
- Systemau cyfeiriad cyhoeddus
- Gwasanaethau derbynfa
- Llunio llofnodion e-bost
- Arwyddion
- Cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, peiriannau hunanwasanaeth
- Tendrau a chontractau
- Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- Gwefan

2.3 Mae datganiadau safonol sy'n cynnig y cyfle i gwsmeriaid ohebu yn y Gymraeg wedi eu darparu i weithwyr, mae'r rhain wedi eu cynnwys ar benawdau llythyrau a dogfennau. Mae datganiad safonol yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg nawr wedi ei gynnwys fel troedyn ar negeseuon e-bost a gaiff eu hanfon yn allanol.

2.4 Mae posteri Iaith Gwaith yn cael eu harddangos ymhob ardal dderbynfa, mae gweithwyr sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr Cymraeg yn gwisgo'r cordyn Iaith Gwaith a/neu fathodynnau. Gofynnir i weithwyr newydd sy'n siarad Cymraeg neu sy'n ddysgwyr Cymraeg am lefel eu sgiliau pan dynnir eu lluniau ar gyfer eu cardiau adnabod. Caiff bathodynnau a chordyn Iaith Gwaith eu darparu wedyn i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg.

2.5 Mae gwefan, Apiau a pheiriannau hunanwasanaeth y Cyngor yn ddwyieithog a hefyd tudalen Trydar y Cyngor. Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor yn cynnwys gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

2.6 Gofynnir i aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud cais am gyrsiau a gynhelir gan y Cyngor beth yw eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) i asesu'r angen am ddarparu gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.7 Mae Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor yn ymgorffori Safonau'r Gymraeg, mae hyn yn atgoffa swyddogion comisiynu o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau. Mae cymalau enghreifftiol ar gyfer contractau wedi eu cyhoeddi ar y fewnrwyd.

2.8 Mae Gweithdrefn Gwyno eisoes mewn grym ac wedi ei diwygio i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae cwynion am yr iaith Gymraeg wedi eu nodi yn adran chwech.

Mae rhwydwaith o arweinwyr dirprwyedig y Gymraeg, gydag aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o bortffolios y Cyngor, wedi ei sefydlu. Nod y grŵp hwn yw i gefnogi'r iaith Gymraeg ar draws y Cyngor, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith gweithwyr, rhannu arfer da o fewn eu gwasanaeth a chyfrannu at fentrau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Caiff y rhwydwaith hwn ei gadeirio gan y Prif Swyddog dros Addysg ac Ieuenctid.

2.10 Rydym wedi datblygu polisi Cymraeg yn y Gweithle er mwyn cynyddu amlygrwydd a hyglywedd y Gymraeg yn y gwaith, gan annog gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr yn ogystal â gyda chwsmeriaid.

2.11 Mae rhaglenni a chofnodion o gyfarfodydd Pwyllgorau ar gael yn y Gymraeg.

3. Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

3.1 Mae fframwaith Asesu Effaith Integredig electronig sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg wedi ei ddatblygu. Mae hwn nawr wedi ei gynnwys o fewn y system rheoli perfformiad corfforaethol i sicrhau y gellir monitro'r cynnydd o ran cwblhau asesiadau effaith integredig yn fwy effeithiol.

3.2 Mae Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn mynychu Grŵp Budd-ddeiliaid yr Asesiad o Effaith Integredig lle mae cynrychiolwyr pobl gyda nodweddion a ddiogelir a siaradwyr Cymraeg yn cyfrannu at yr asesiadau effaith wrth iddynt gael eu gwneud.

3.3 Mae canllawiau ar ymgynghori ac ymchwil, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, ar gael ar y fewnrwyd. Mae hyn wedi ei hyrwyddo i weithwyr yn ogystal â'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r Safonau Llunio Polisi.

3.4 Mae Cyfeirlyfr Grwpiau y dylai rheolwyr ymgynghori â hwy pan maent yn datblygu ac yn diweddaru polisïau presennol ar gael ar y fewnrwyd. Mae'r Cyfeirlyfr hwn yn cynnwys rhestr o sefydliadau sy'n cynrychioli siaradwyr Cymraeg.

4. Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

4.1 Cytunwyd ar Bolisi Cymraeg yn y Gweithle ac mae wedi ei gyhoeddi ar y fewnrwyd – dyma bolisi'r Cyngor ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.

4.2 Mae arwyddion newydd ac arwyddion wedi eu diweddaru yn y Gymraeg a'r Saesneg – mae'r Gymraeg wedi ei gosod uwchben neu i'r chwith o'r arwydd Saesneg. Mae'r holl arwyddion yn adeilad newydd y Cyngor "Tŷ Dewi Sant" yn gyfan gwbl ddwyieithog – mae'r Gymraeg wedi ei gosod fel y bydd yn cael ei darllen cyn y Saesneg. Mae adolygiad o adeiladau'r Cyngor yn mynd rhagddo i sicrhau fod yr holl arwyddion yn adeiladau'r Cyngor yn gyfan gwbl ddwyieithog.

4.3 Mae tudalen gyntaf mewnrwyd y Cyngor nawr ar gael yn y Gymraeg a chaiff gweithwyr eu croesawu gan y rhagdudalen i weld y dudalen gyntaf naill ai yn y Saesneg neu'r Gymraeg. Mae tudalen ddynodedig ar gael ar y fewnrwyd i gefnogi siaradwyr Cymraeg.

4.4 Mae gweithwyr a rheolwyr wedi cael gwybod am y Safonau Gweithredol a hawliau gweithwyr.

4.5 Mae gweithwyr wedi cael gwybod am eu hawliau i dderbyn busnes wedi ei gyfeirio atynt yn bersonol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r wybodaeth hon wedi ei chofnodi ar iTrent (system rheoli adnoddau dynol) a gan reolwyr. Caiff hyn ei argraffu ar slipiau cyflog gweithwyr gan sicrhau fod y neges yn cyrraedd yr holl weithwyr ac yn cael ei chynnwys yn y rhestr wirio Sefydlu.

4.6 Gofynnir i weithwyr newydd ym mha iaith yr hoffent i'w cytundeb gael ei ddarparu.

4.7 Mae dogfennaeth arfarnu wedi ei gyhoeddi ar y fewnrwyd yn y Gymraeg. Mae gan weithwyr y dewis o gael cyfweliadau/cyfarfodydd disgyblu a chwynion yn y Gymraeg.

4.8 Mae Cysgliad (geiriadur, gwiriwr sillafu a gramadeg y Gymraeg) ar gael i weithwyr. Caiff hyn ei hyrwyddo yn y cyfarfod sefydlu a chaiff gweithwyr eu hatgoffa yn rheolaidd, drwy eitemau newyddion y gweithlu, y gallant wneud cais am Cysgliad.

4.9 Mae adnoddau i gefnogi dysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnrwyd ar dudalen ddynodedig ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Caiff gweithgareddau a gynhelir yn y gymuned i gefnogi dysgwyr eu hyrwyddo i weithwyr i'w hannog i gymryd rhan.

4.10 Mae cyfarwyddiadau ar sut i osod Iaith Gwaith ar lofnodion e-bost, cyfeiriadau e-bost dwyieithog a negeseuon dwyieithog sy'n nodi nad yw'r gweithiwr yn y swyddfa wedi eu cylchredeg i weithwyr. Gall gweithwyr hefyd ofyn am gael y geiriau "Siaradwr Cymraeg" neu "Dysgwr Cymraeg" ar ôl eu henwau ar eu cyfeiriadau e-bost, i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr Cymraeg. Mae cortyn a bathodynnau Iaith Gwaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar gael ac mae dysgwyr Cymraeg wedi derbyn cortyn a bathodynnau gyda "Dysgwr" arnynt.

4.11 Mae'r rhestr wirio Sefydlu yn cynnwys Safonau'r Gymraeg ac yn annog rheolwyr i sicrhau fod eu gweithwyr yn:

- cwblhau'r asesiad sgiliau iaith Gymraeg;
- nodi'r angen am unrhyw hyfforddiant yn ymwneud â'r Gymraeg;
- cwblhau'r modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg;
- gallu cael mynediad at Cysgliad;
- yn derbyn y bathodyn a'r cortyn Iaith Gwaith os ydynt yn siarad Cymraeg neu'n ddysgwr;
- yn gosod eu neges yn nodi nad ydynt yn y swyddfa yn ddwyieithog; ac yn
- sefydlu cyfeiriad e-bost dwyieithog

4.12 Caiff y polisïau canlynol eu cyhoeddi yn y Gymraeg;

- Polisi Rheoli Presenoldeb
- Manteision gweithio i Gyngor Sir y Fflint
- Polisi Galluogrwydd
- Polisi Diogelu Corfforaethol
- Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb
- Ffurflen gais Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Oriau Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Maethu i Sir y Fflint
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle

Caiff ceisiadau am wyliau blynyddol ac absenoldeb salwch eu gwneud yn electronig ac mae fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni cais ar gael.

Mae'r holl wybodaeth gan Iechyd Galwedigaethol yn ddwyieithog.

4.13 Mae proses i asesu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd mewn grym. Mae dull o gofnodi'r nifer o swyddi sydd wedi eu hasesu fel dymunol neu hanfodol wedi ei ddatblygu. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgan y nifer o swyddi newydd a gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle:

i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol
ii) roedd angen dysgu Cymraeg yn dilyn penodi
iii) roedd y Gymraeg yn ddymunol
iv) nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol

Mae'r data ar gyfer 2018/2019 wedi eu nodi isod.

Categori	Nifer		
	2016/17	2017/18	2018/19
i) Y Gymraeg yn hanfodol	17	8	14
ii) Angen dysgu Cymraeg yn dilyn penodi	0	0	0
iii) Y Gymraeg yn ddymunol	9	40	42
iv) Sgiliau'n ymwneud â'r Gymraeg ddim yn hanfodol	277	185	207
CYFANSWM	294	233	263

4.14 Mae ffurflenni cais am swyddi wedi cael eu haddasu i ymgeiswyr nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad.

4.15 Rydym wedi asesu sgiliau Cymraeg gweithwyr (ac eithrio'r rhai a gyflogir gan ysgolion). Mae canlyniadau'r asesiad yn dangos fod 88.84% o weithwyr wedi cwblhau'r archwiliad. Byddwn yn parhau i gymryd camau i gynyddu'r nifer o weithwyr sy'n cwblhau'r archwiliad hwn. Ceir dadansoddiad o'r gweithwyr sydd wedi cwblhau'r archwiliad yn Nhabl 1.

Tabl 1: Y nifer a'r ganran o weithwyr sydd wedi cwblhau archwiliad sgiliau'r Gymraeg erbyn 31 Mawrth 2017, 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2019.

	2017	2018	2019
Portffolio	**%**	**%**	**%**
Prif Weithredwyr	100.00%	93.18%	100.00%
Cymuned a Menter	83.66%	88.55%	88.13%
Addysg ac Ieuenctid	81.41%	82.81%	88.06%
Llywodraethu	100.00%	98.21%	97.43%
Newid Sefydliadol 1	82.78%	86.36%	100.00%
Newid Sefydliadol 2	75.97%	94.74%	92.30%
Pobl ac Adnoddau	100.00%	98.20%	100.00%
Cynllunio a'r Amgylchedd	85.31%	90.53%	94.41%
Gwasanaethau Cymdeithasol	78.77%	91.42%	89.47%
Strydwedd a Chludiant	72.55%	75.00%	80.26%
CSFf GWIRIONEDDOL	**82.43%**	**87.62%**	**88.84%**

4.16 Mae'r canlyniadau o Dablau 2 a 3 yn nodi lefelau sgiliau ieithyddol Cymraeg gweithwyr.

Tabl 2: Nifer a chanran y gweithwyr a lefel sgiliau'r Gymraeg ar 31 Mawrth 2019.

Portffolio	**Lefel 0 (Dim)**		**Lefel 1 (Mynediad)**		**Lefel 2 (Sylfaen)**		**Lefel 3 (Canolradd)**		**Lefel 4 (Uwch)**		**Lefel 5 (Yn gyfan gwbl rugl)**	
	No	**%**	**No.**	**%**	**No.**	**%**	**No.**	**%**	**No**	**%**	**No**	**%**
Prif Weithredwyr	7	16%	15	35%	9	21%	4	9%	3	7%	5	12%
Cymuned a Menter	134	38%	131	38%	40	11%	17	5%	14	4%	13	3%
Addysg ac Ieuenctid	55	25%	85	39%	40	19%	12	6%	12	6%	12	6%
Llywodraethu	40	35%	48	42%	16	14%	3	3%	4	4%	3	3%
Newid Sefydliadol 1	0	0%	5	56%	2	22%	0	0%	1	11%	1	11%
Newid Sefydliadol 2	13	37%	16	46%	4	11%	1	3%	1	3%	0	0%
Pobl ac Adnoddau	40	24%	74	45%	30	18%	8	5%	10	6%	4	2%
Cynllunio a'r Amgylchedd	48	31%	63	41%	16	10%	6	4%	14	9%	6	4%
Gwasanaethau Cymdeithasol	359	41%	303	34%	132	15%	30	3%	26	3%	30	3%
Strydwedd a Chludiant	199	47%	156	37%	40	9%	10	2%	10	2%	10	2%
Cyfanswm	**895**	**37%**	**896**	**37%**	**329**	**14%**	**91**	**4%**	**95**	**4%**	**84**	**4%**

Tabl 3: Tuedd sgiliau Cymraeg gweithwyr ar 31 Mawrth 2016, 2017 a 2018 a 2019.



5. Hyfforddiant

5.1 Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer gweithwyr. Caiff hwn ei ddarparu fel modiwl e-ddysgu. Yn ystod 2018/19, fe gwblhaodd 283 o weithwyr yr hyfforddiant hwn. Fe ddarparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg hefyd i aelodau etholedig, darparwyd hwn gan Iaith - y Ganolfan Gymraeg ar gyfer cynllunio ieithyddol. Yn ychwanegol mae hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg ar gael i weithwyr. Mae hwn wedi ei nodi yn Adran 5.3.

5.2 Mae'n ofynnol i ni adrodd:
i) nifer y gweithwyr sy'n mynychu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

ii) a gynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs – nifer a % y gweithwyr a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

Mae yna wybodaeth ar dudalennau mewnrwyd y Cyngor i ddweud wrth weithwyr os ydynt yn dymuno gwneud unrhyw rai o'r cyrsiau yn Gymraeg i gysylltu â'r Tîm Dysgu a Datblygu Corfforaethol. Mae gan y Cyngor gytundeb anffurfiol gyda Chyngor Gwynedd fod gweithwyr yn mynychu eu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer y gweithwyr sy'n mynychu cyrsiau penodol yn y Gymraeg wedi ei nodi isod:

Teitl y cwrs	Nifer y gweithwyr a fynychodd hyfforddiant yn y Gymraeg
Recriwtio a chyfweld	0
Rheoli Perfformiad	0
Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu	0
Sefydlu	0
Delio â'r cyhoedd	0
Iechyd a Diogelwch	0

5.3 **Hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg**
Caiff amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi yn ymwneud â sgiliau'r Gymraeg eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau byr ar gyfer gweithwyr nad oes ganddynt unrhyw ddealltwriaeth o'r Gymraeg i'w helpu i ddysgu ymadroddion sylfaenol a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg rhugl i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau ysgrifennu. Roedd yna ostyngiad yn y nifer o weithwyr a fynychodd hyfforddiant yn ymwneud â sgiliau'r Gymraeg yn ystod 2018/19; mae 64 nawr yn mynychu hyfforddiant.

Tabl 4: Nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant yn ymwneud â sgiliau'r Gymraeg

Lefel	2016/17	2017/18	2018/19
	Nifer	**Nifer**	**Nifer**
Sgiliau Ieithyddol Sylfaenol	62	48	1
Mynediad	34	50	34
Sylfaen	20	7	12
Canolradd	12	23	3
Uwch	2	1	9
Rhugl	3	10	5
Cyfanswm	133	139	64

5.4 Mae'n ofynnol i bob prentis, nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg, i gwblhau'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) lefel 2 Cymraeg yn ystod eu blwyddyn gyntaf a byddant yn mynd yn eu blaenau i NVQ lefel 3 yn ystod ail flwyddyn eu prentisiaeth.

5.5 I annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle:

- mae gweithwyr sy'n mynychu gwersi Cymraeg hefyd yn derbyn geiriadur yn ogystal â mynediad at Cysgliad
- gofynnwyd i ddarparwyr hyfforddiant allanol ddarparu sleidiau dwyieithog o fewn eu cyflwyniadau fel Croeso/Welcome, Diolch/Thank you.
- caiff llyfrnodau eu darparu i reolwyr gyda sampl o ymadroddion i'w defnyddio mewn cyfarfodydd.
- caiff ymadroddion i'w defnyddio mewn siopau a chaffis ar safleoedd y Cyngor eu hyrwyddo yn ystod Diwrnod Su'mae.

- Dechreuodd a gorffennodd rheolwyr pob cyfarfod ar Ddiwrnod Su'mae.
- Mae posteri "Welsh on the Wall" wedi eu dosbarthu i swyddfeydd y Cyngor ac wedi eu gosod ar waliau uwchben llungopiwyr i annog gweithwyr i ddysgu ymadroddion defnyddiol.
- Caiff sesiynau sgwrsio panad a sgwrs eu cynnal yn fisol ar gyfer dysgwyr Cymraeg mewn lleoliadau gwahanol; caiff y rhain eu hyrwyddo a'u cefnogi gan weithwyr sy'n siarad Cymraeg.

5.6 Wrth symud ymlaen mae'r Cyngor nawr wedi cofrestru ar gyfer cwrs "Blasu" a "Chroeso 'Nôl" y modiwlau e-ddysgu Cymraeg "Cymraeg Gwaith".

6. Cwynion

6.1 Yn ystod 2018/19 fe dderbyniom chwech o gwynion o'i gymharu â phedwar cwyn yn ystod 2017/18. Mae dadansoddiad o'r cwynion isod

Dosbarth Safon	Nifer y cwynion
Gweithredol	0
Cyflenwi Gwasanaeth	6
Llunio Polisi	0
Hyrwyddo	0

Mae'r cwynion ar gyfer 2018/19 wedi eu nodi isod ac yn ymwneud â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth.

Cwynion Cyflenwi Gwasanaeth	Canlyniad
Y Gymraeg ddim yn gyfartal â'r Saesneg ar wybodaeth a gyhoeddwyd gan gontractwr	Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg yn mynd yn ei flaen. Y wybodaeth yn cael ei chywiro
Galwad cwsmer i'r llinell ffôn Gymraeg wedi ei throsglwyddo at siaradwr Saesneg na gynigiodd gymryd manylion y galwr er mwyn i siaradwr Cymraeg ddychwelyd yr alwad. Nid oedd y dudalen ymholiad ar y wefan yn gyfan gwbl yn y Gymraeg.	Ymddiheuriad wedi ei roi a siaradwr Cymraeg wedi cysylltu â'r cwsmer i ddelio â'u hymholiad. Gweithwyr y Ganolfan Gyswllt wedi eu hatgoffa i gynnig dewisiadau i siaradwyr Cymraeg os nad yw gweithwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael. Mae'r wefan nawr wedi ei newid
Ymateb wedi ei anfon yn Saesneg i ohebiaeth a anfonwyd yn y Gymraeg (2 gwyn)	Ymchwiliodd Comisiynydd y Gymraeg i un gwyn. Mae'n ymchwilio i'r ail gwyn ar hyn o bryd. Gweithwyr

	wedi eu hatgoffa fod angen cydymffurfio â'r Safonau
Nid oedd llythyr a anfonwyd yn y Gymraeg yn gyfan gwbl yn y Gymraeg	Gwasanaethau wedi eu hatgoffa i ddefnyddio cyfeiriadau Cymraeg ar ohebiaeth Gymraeg
Y Saesneg wedi ei gosod uwchben y Gymraeg ar arwydd newydd	Yr arwydd wedi ei newid

7. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

7.1 Rydym wedi datblygu ac wedi cyhoeddi strategaeth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws y sir ac i osod targedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn cefnogi **cynnydd** yn y lefel bresennol o siaradwyr Cymraeg, o 13.2% / 19,343 o bobl yn y sir i 21,891 (15% o bobl) yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o tua 2548 o siaradwyr Cymraeg (dros dair oed) dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn ystyried y cynnydd mewn plant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg fel nodwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ogystal â chynnydd yn y nifer o oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Ein gweledigaeth yn y tymor hirach, ar ôl 2024, yw i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan greu sir ddwyieithog lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Fframwaith Mwy Na Geiriau yn strategaethau allweddol i gefnogi ein gwaith i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

7.2 Nod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw i:

- gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg gan gynnwys addysg y blynyddoedd cynnar;
- codi safonau ar gyfer pob dysgwr yn y sector cyfrwng Cymraeg (Cymraeg Iaith Gyntaf a phynciau a gaiff eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y cwricwlwm) ac yn y sector cyfrwng Saesneg (lle caiff y Gymraeg ei dysgu a'i hyrwyddo fel ail iaith).

7.3 Mae pob ysgol cyfrwng Cymraeg wedi derbyn gwobr Arian y Siarter Iaith ac mae Ysgol Gwenffrwd wedi derbyn y wobr Aur. Mae chwech o ysgolion cyfrwng Saesneg hyd yma wedi ennill gwobr Efydd Cymraeg Campus – ysgolion cynradd Sealand, Bryn Pennant, Y Llan, Yr Esgob, Licswm a Rhos Helyg. Y cynllun i hyrwyddo a chynyddu'r mwynhad a'r defnydd o'r Gymraeg gan blant yw'r Siarter Iaith gan greu ethos Cymraeg cryf mewn ysgolion. Mae Cymraeg Campus yn siarter i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn cynnwys tair gwobr – efydd, arian ac aur, mae ysgolion yn ymdrechu i gwblhau'r gwobrau hyn dros gyfnod o dair blynedd - un bob blwyddyn. Mae pob gwobr yn cynnwys deg targed a daw'r targedau hyn yn fwy heriol ar y lefelau gwahanol.

7.4 Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gosod gwasanaethau Cymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol o fewn eu gwaith. Maent wedi darparu sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda phartneriaid allanol i'w helpu i ddeall pwysigrwydd diwylliant Cymru a'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi darparu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

7.5 Trefnodd y Gwasanaethau Cymdeithasol gwrs hyfforddi Cymraeg i Ddechreuwyr yn benodol ar gyfer y gweithlu Gofal Cymdeithasol (o fewn awdurdod lleol a'r sector annibynnol) drwy Goleg Cambria. Dechreuodd y 100 awr o ddysgu rhad ac am ddim ym Mawrth 2019 a bydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2019. Cofrestrodd 18 o unigolion ar y cwrs a bydd cwrs tebyg yn cael ei ddarparu ym Medi 2019.

7.6 Hyrwyddo'r Gymraeg i fusnesau lleol ac yn y gymuned
Mae'r Fenter Iaith wedi derbyn cyllid i gefnogi datblygiad Fforwm Iaith. Hefyd darparwyd cefnogaeth ariannol gennym i gynnal digwyddiad yn y Fflint i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'r gymuned leol.Fe fu'r ysgolion lleol yn cymryd rhan yn y digwyddiad hwn. Fe fu swyddfeydd lleol a'r llyfrgell leol yn addurno ardaloedd oedd yn wynebu'r cyhoedd gyda chennin pedr a baneri. Fe fu siopau lleol yn cymryd rhan drwy ymgeisio yng nghystadleuaeth addurno ffenestri Dydd Gŵyl Dewi. Cyhoeddwyd negeseuon trydar ar dudalen trydar y Cyngor yn annog pobl i ddysgu Cymraeg.

7.7 Ar ddiwrnod Su'mae fe aethom ati i arddangos posteri ar sgriniau teledu yn Sir y Fflint yn Cysylltu ac mewn Canolfannau Hamdden i annog pobl i ddweud rhywbeth yn Gymraeg. Cefnogwyd hyn gan negeseuon a gyhoeddwyd ar Trydar.

7.8 Mae Theatr Clwyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n cynyddu amlygrwydd a hyglywedd y Gymraeg:

- Cyflwynodd restr o gerddoriaeth ddwyieithog ar gyfer Blaen y Tŷ. Cynhaliwyd digwyddiadau cerddorol arbennig ar Ddiwrnod Cerddoriaeth Gymraeg a Diwrnod Shw'mae Su'mae a oedd hefyd yn cynnwys chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn y caffi drwy'r dydd.
- Cyflwynir amrediad o bapurau newydd Cymraeg a deunyddiau darllen - sydd ar gael yn y Siop Anrhegion ac ardaloedd y bar a'r caffi.
- Darparodd gwrs 10 wythnos i bobl ifanc i ddysgu'r Ukulele drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae wedi comisiynu drama ddwyieithog ar Derfysgoedd Yr Wyddgrug i'w pherfformio yn nhymor yr Hydref 2019.
- Am y tro cyntaf yn hanes y theatr darparodd sioe Nadolig yn y Gymraeg sef "Llew a'r Crydd".
- Cynyddodd y nifer o ddigwyddiadau sinema yn y Gymraeg a digwyddiadau cerddorol yn y Gymraeg.
- Mae'n datblygu cwrs achrededig newydd ar gyfer hyrwyddwyr dwyieithog – y cwrs dwyieithog cyntaf erioed ar gyfer hyrwyddwyr.

8. Gweithredu yn y Dyfodol

8.1 Er mwyn symud ymlaen yn ystod 2019/20 fe fyddwn yn parhau i atgoffa a chefnogi gweithwyr a rheolwyr o ran eu cyfrifoldebau i ddiwallu Safonau'r Gymraeg. Fe fyddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i'w hannog i hyrwyddo'r Gymraeg a thrwy hynny cynyddu amlygrwydd a hyglywedd y Gymraeg.

8.2 Yn ystod y 12 mis nesaf fe fyddwn yn parhau i ganolbwyntio ar:

- sicrhau fod 100% o weithwyr yn cwblhau archwiliad sgiliau'r Gymraeg;
- cynyddu'r nifer o weithwyr sy'n cwblhau modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg;
- adolygu'r broses recriwtio a dethol i gynyddu'r nifer o ymgeiswyr am swyddi sy'n siaradwyr Cymraeg a sicrhau fod yr holl ymgeiswyr a gweithwyr newydd yn deall ymrwymiad y Cyngor tuag at yr iaith Gymraeg a darparu gwasanaethau dwyieithog;
- cynyddu'r nifer o weithwyr sydd â pheth sgiliau Cymraeg sylfaenol a chynyddu'r nifer o weithwyr sy'n nodi fod eu sgiliau ieithyddol ar lefel 3; a
- chodi proffil yr iaith Gymraeg yn y gweithle a'r gymuned.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni:

Ffôn: ☎ 01352 702131

E-bost: 💻 corporatebusiness@flintshire.gov.uk

Appendix 1 WELSH LANGUAGE SKILLS SELF-ASSESSMENT TOOL

	LISTENING / SPEAKING	READING / UNDERSTANDING	WRITING
LEVEL 0	● No appreciable ability	● No appreciable ability	● No appreciable ability
LEVEL 1	**I Can:** ● Pronounce Welsh words, place names, department names, etc. ● Greet and understand a greeting. ● Use basic every day words and phrases, e.g. thank you, please, excuse me, etc. ● Understand / pass on simple verbal requests of a routine / familiar / predictable kind using simple language, e.g. 'May I speak to…'. ● State simple requests and follow up with extra questions / requests in a limited way	**I Can:** ● Understand simple key words and sentences on familiar / predictable matters relating to my own job area, e.g. on signs, in letters.	**I Can:** ● Fill in simple forms, note down simple information, e.g. date and venue of a meeting, Welsh address, etc.
LEVEL 2	**I Can:** ● Understand the gist of Welsh conversations in work ● Respond to simple job-related requests and requests for factual information ● Ask simple questions and understand simple responses ● Express opinions in a limited way as long as the topic is familiar ● Understand instructions when simple language is used	**I Can:** ● Understand factual, routine information and the gist of non-routine information on familiar matters related to my own job area , e.g. in standard letters, leaflets, etc.	**I Can:** ● Write short simple notes / letters / messages on a limited range of predictable topics related to my personal experiences or my own job area
LEVEL 3	**I Can:** ● Understand much of what is said in an office, meeting, etc. ● Keep up a simple conversation on a work related topic, but may need to revert to English to discuss / report on complex or technical information ● Answer predictable or factual questions ● Take and pass on most messages that are likely to require attention ● Offer advice on simple job-related matters	**I Can:** ● Scan texts for relevant information ● Understand a fair range of job-related routine and non-routine correspondence, factual literature, etc. when standard language is used.	**I Can:** ● Write a detailed / descriptive letter relating to my own job area, but will need to have it checked by a Welsh speaker ● Make reasonably accurate notes while someone is talking
LEVEL 4	**I Can:** ● Keep up an extended casual work related conversation or give a presentation with a good degree of fluency and range of expression but may need to revert to English to answer unpredictable questions or explain complex points or technical information ● Contribute effectively to meetings and seminars within own area of work ● Argue for/against a case	**I Can:** ● Read and understand information fairly quickly as long as no unusual vocabulary is used and no particularly complex or technical information is involved	**I Can:** ● Prepare formal letters of many familiar types such as enquiry, complaint, request and application ● Take reasonably accurate notes in meetings or straightforward dictation ● Write a report / document relating to my own job area, but will need to have it checked by a Welsh speaker
LEVEL 5	**I Can:** ● Advise on / talk about routine, non-routine, complex, contentious or sensitive issues related to own experiences ● Give a presentation/demonstration ● Deal confidently with hostile or unpredictable questions ● Carry out negotiations using complex / technical terms	**I Can:** ● Understand complex ideas and information expressed in complex or specialist language in documents, reports correspondence and articles, etc.	**I Can:** ● Write letters on any subject ● Write full / accurate notes of meetings while continuing to follow discussions and participate in them ● Write reports / documents with confidence but

	● Give media interviews		